## ADRAN 1. PA GAMAU Y MAE LLYWODRAETH CYMRU YN EU HYSTYRIED A PHAM?

Cyhoeddwyd adroddiad 'Drws ar Glo: Datgloi Bywydau a Hawliau Pobl Anabl yng Nghymru ar ôl COVID-19' ym mis Gorffennaf 2021. Roedd yr adroddiad yn tynnu sylw at yr anghydraddoldebau y mae llawer o bobl anabl yn eu hwynebu yng Nghymru, a gafodd eu dwysáu gan y pandemig, a sefydlwyd y Tasglu Hawliau Pobl Anabl i fynd i'r afael â'r anghydraddoldebau hyn.

Ym mis Tachwedd 2021, ffurfiodd y Tasglu Hawliau Pobl Anabl grŵp blaenoriaethu i bennu'r prif feysydd ar gyfer ei raglen. Y ffrydiau gwaith â blaenoriaeth a nodwyd oedd:

- Ymgorffori a Deall y Model Cymdeithasol o Anabledd (ledled Cymru)
- Mynediad at Wasanaethau (gan gynnwys Cyfathrebu a Thechnoleg)
- Byw'n Annibynnol: Gofal Cymdeithasol
- Byw'n Annibynnol: Iechyd a Llesiant
- Teithio
- Mynediad at Gyfiawnder
- Cyflogaeth ac Incwm
- Tai Fforddiadwy a Hygyrch
- Plant a Phobl Ifanc
- Llesiant

Cynhaliodd pob un o'r gweithgorau hyn 4-6 cyfarfod, a gynhaliwyd ar-lein i sicrhau hygyrchedd i bawb. Roedd y cyfarfodydd hyn yn darparu cyfieithu a chapsiynau Iaith Arwyddion Prydain. Cafodd holl aelodau'r Tasglu a'r gweithgorau gynnig sesiynau hyfforddi ar y Model Cymdeithasol o Anabledd a sgiliau cyd-gynhyrchu.

**Cydweithio**

Cydweithiodd y Tasglu â dros 350 o aelodau allanol, gan gynnwys pobl anabl, Sefydliadau Pobl Anabl, a phartïon eraill â diddordeb. Ystyriodd pob gweithgor ystod eang o dystiolaeth, gan gynnwys cyflwyniadau, profiadau bywyd, a darparwyd cyfleoedd i drafod. Rhoddwyd cyfle i'r holl aelodau fynegi eu safbwyntiau yn y fformat sydd orau ganddynt. Datblygodd y gweithgorau gyfres o argymhellion, a chytunwyd arnynt gan yr holl aelodau oedd yn cymryd rhan, ac wedyn gan gyfarfodydd cyffredinol y Tasglu.

Roedd pobl anabl yn bartneriaid gweithredol ym mhroses y Tasglu, gan rannu gwybodaeth a phrofiadau bywyd sydd wedi llywio camau gweithredu i roi sylw i hawliau pobl anabl ac i chwalu'r rhwystrau presennol. Mae'r egwyddor "*pwysigrwydd cynnwys pobl anabl mewn unrhyw benderfyniadau*" yn hanfodol er mwyn sicrhau bod pobl anabl yn cymryd rhan weithredol mewn materion sy'n effeithio ar eu bywydau.

**Integreiddio**

Mae gan lawer o'r argymhellion a gyflwynwyd y potensial i drawsnewid bywydau pobl anabl, ond rydym yn disgwyl y byddant yn cymryd amser hir i'w cyflawni. Mae'r argymhellion wedi siapio'r gwaith o ddatblygu'r cynllun, ac mae cyflawni'r canlyniad a ddymunir yn ymdrech hirdymor. Mae hwn yn gynllun 10 mlynedd sy'n cael ei ategu gan gamau gweithredu ar unwaith i'r llywodraeth hon eu rhoi ar waith.

Rydym wedi gweithio gyda phobl anabl i sicrhau bod y Cynllun yn hygyrch a bod yr iaith a ddefnyddir yn adlewyrchu'r Model Cymdeithasol o Anabledd[1]. Yn y Cynllun Hawliau Pobl Anabl hwn i Gymru, mae pedwar maes gweithredu cyffredinol:

- Cymdogaethau a Lleoedd;
- Cyflogaeth, Incwm ac Addysg;
- Byw'n Annibynnol;
- Cyfiawnder ac Amgylcheddau Cefnogol.

Mae'r pedwar maes yn ymdrin â deg prif thema, sy'n alinio â gweithgorau'r Tasglu Hawliau Pobl Anabl. Ym mhob pennod, mae'r cynllun yn nodi'r canlyniadau cadarnhaol rydym ni am eu sicrhau i bobl anabl dros y 10 mlynedd nesaf.

**Costau ac Arbedion**

Bydd y camau gweithredu tymor byr yn cael eu hariannu drwy gyllideb gyffredinol Llywodraeth Cymru, gan sicrhau eu bod yn alinio â blaenoriaethau cyflawni polisi sy'n rhychwantu nifer o adrannau. Bydd pob adran yn cadw ei chyllideb benodol ei hun i gyflawni ei blaenoriaethau penodol, gyda mecanweithiau ar waith i sicrhau eu bod yn cael eu rhoi ar waith yn gydlynol ar draws y meysydd croestoriadol.

**Effaith**

Mae rhai pobl anabl yn wynebu nifer o fathau o wahaniaethu ac anfantais ar y cyd. Mae'r camau gweithredu yn y cynllun yn adlewyrchu anghenion a phrofiadau amrywiol pobl anabl yng Nghymru. Rydym ni hefyd yn cydnabod hawliau ac anghenion penodol pobl fyddar sy'n defnyddio Iaith Arwyddion Prydain yng Nghymru, sydd â hunaniaeth ieithyddol, hanesyddol a diwylliannol unigryw. Rydym ni wedi ymrwymo i sicrhau cyfranogiad, cydraddoldeb a chynhwysiant i bawb.

Byddwn yn sefydlu Bwrdd Cynghori Allanol i ddarparu cyngor a chymorth ynghylch gweithredu, cyflawni ac effaith y Cynllun Hawliau Pobl Anabl. Mae Uned Tystiolaeth Gwahaniaethau ar Sail Anabledd Llywodraeth Cymru hefyd wedi nodi sut byddwn yn monitro canlyniadau'r cynllun hwn, er mwyn sicrhau rhagor o dryloywder ynghylch ein cynnydd tuag at gyflawni ein huchelgais, a rhoi gwybod i ni'n gynnar os bydd bylchau'n ymddangos, er mwyn i ni allu gweithredu. Mae'r Cynllun hwn yn un byw, sy'n ymateb i'r hyn rydym ni'n ei ddysgu dros amser. Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda phobl anabl a'u sefydliadau, yn ogystal â phartneriaid eraill, i fonitro ac adolygu ein camau gweithredu a'n heffaith.

---

[1] Mae cynllun Copilot Llywodraeth Cymru wedi cael ei ddefnyddio i gefnogi'r gwaith o ddrafftio'r Cynllun Hawliau Pobl Anabl. Nod y cynllun hwn yw gwella hygyrchedd, cynhwysiant a'r defnydd o iaith y Model Cymdeithasol o Anabledd. Mae pobl wedi sicrhau ansawdd y cynnwys.

**Bydd yr adborth a'r wybodaeth gan y bwrdd cynghori allanol, yr Uned Tystiolaeth Gwahaniaethau ar Sail Anabledd a'r Fforwm Cydraddoldeb i Bobl Anabl yn gyfrwng i gefnogi a chynghori ar y Cynllun Hawliau Pobl Anabl.** Mae'r Fforwm Cydraddoldeb i Bobl Anabl yn darparu cyfle i randdeiliaid gynghori Llywodraeth Cymru ar y prif faterion sy'n effeithio ar bobl anabl. Bydd y Cynllun Hawliau Pobl Anabl yn helpu i hyrwyddo hawliau a chyfleoedd pobl anabl yng Nghymru. Mae'r Cynllun yn cael ei arwain gan egwyddorion y Model Cymdeithasol o Anabledd, yn alinio â Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Anabl (UNCRDP), yr Amcanion Cydraddoldeb Cenedlaethol sydd â'r nod o hyrwyddo tegwch a chynhwysiant i bawb, a Deddf Cydraddoldeb 2010 sy'n sicrhau bod gan unigolion anabl fynediad cyfartal at wasanaethau, cyflogaeth a swyddogaethau cyhoeddus. Efallai y bydd peidio â gwneud yr addasiadau hyn yn cael ei ystyried yn wahaniaethu anghyfreithlon.

Fel rhan o'n dyletswyddau o dan y Ddeddf Cydraddoldeb, mae gan Lywodraeth Cymru saith Amcan Cydraddoldeb Cenedlaethol[2], sef:

- **Amcan Cydraddoldeb Cenedlaethol 1:** Byddwn yn creu Cymru lle mae pawb yn cael cyfleoedd i ffynnu yn unol â'n nod sefydliadol i leihau tlodi.
- **Amcan Cydraddoldeb Cenedlaethol 2:** Byddwn yn creu Cymru lle gall pawb fod yn ymwybodol o'u hawliau dynol, lle cânt eu diogelu, eu hybu a lle maen nhw'n sail i bob polisi cyhoeddus.
- **Amcan Cydraddoldeb Cenedlaethol 3:** Byddwn yn creu Cymru lle gall pawb fod yn ymwybodol o wasanaethau cyhoeddus o safon uchel a chael mynediad cyfartal atynt.
- **Amcan Cydraddoldeb Cenedlaethol 4:** Byddwn yn creu Cymru sy'n atal gwahaniaethu, erledigaeth, aflonyddu, cam-drin, troseddau casineb a/neu fwlio yn erbyn pawb.
- **Amcan Cydraddoldeb Cenedlaethol 5:** Byddwn yn creu Cymru lle gall pawb o'r amrywiaeth lawn o gefndiroedd gymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus, cael eu lleisiau wedi'u clywed, a gweld eu hunain yn cael eu hadlewyrchu mewn swyddi arwain.
- **Amcan Cydraddoldeb Cenedlaethol 6:** Byddwn yn creu Cymru â chyfleoedd teg a chyfartal i gael swydd ac sy'n sicrhau triniaeth deg a chyfartal yn y gweithle, gan gynnwys cyflog ac amodau teg.
- **Amcan Cydraddoldeb Cenedlaethol 7:** Byddwn yn creu Cymru sy'n amgylcheddol gynaliadwy gyda'r gallu i sicrhau bod ein taith i sero net yn deg a'n bod yn ymateb i effeithiau annheg newid yn yr hinsawdd.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn canolbwyntio ar wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r Ddeddf yn rhoi diben cyffredin sy'n rhwymo'n gyfreithiol – y saith nod llesiant – ar gyfer llywodraeth genedlaethol, llywodraeth leol, byrddau iechyd lleol a chyrff cyhoeddus penodol eraill. Mae'n rhoi manylion sut mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus penodol weithio a chydweithio i wella llesiant Cymru. Bydd y cynllun hwn yn cefnogi'r **nodau llesiant** Cymru lewyrchus, Cymru gydnerth, Cymru iachach, Cymru sy'n fwy cyfartal a Chymru o gymunedau cydlynus[3].

[2] Datganiad Ysgrifenedig: Sicrhau Cymru deg: Amcanion Cydraddoldeb Cenedlaethol 2024-28 | LLYW.CYMRU
[3] Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015: Yr Hanfodion | LLYW.CYMRU

**Effaith**

Ein nod yw i'r Cynllun ein helpu i hybu hawliau a chyfleoedd pobl anabl yng Nghymru, i gael gwared ar rwystrau, ac i herio'r rhagfarn a gwahaniaethu maen nhw'n eu hwynebu. Mae bywyd i bobl anabl yn aml yn anodd, yn llawn heriau o ddydd i ddydd a rhwystrau systemig sy'n amharu ar eu gallu i gymryd rhan lawn mewn cymdeithas. Mae'r heriau hyn yn cyfyngu ar gyfleoedd pobl anabl ac yn gallu chwalu eu hymdeimlad o berthyn a chynhwysiant.

Mae'r cynllun hwn yn nodi ein huchelgais ar gyfer Cymru lle gall pobl anabl fwynhau hawliau, cynhwysiant a chyfranogiad cyfartal. Wrth wraidd ein dull gweithredu mae'r Model Cymdeithasol o Anabledd, sy'n ein helpu i ddeall sut gall pobl anabl gael eu dal yn ôl gan y byd o'u cwmpas, a sut gallwn ei gwneud hi'n haws i bawb gymryd rhan yn y byd. Rydym ni hefyd yn cael ein harwain gan egwyddorion a rhwymedigaethau Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Anabl. Mae'r rhwystrau y mae pobl anabl yn eu hwynebu yn gallu cynnwys adeiladau anhygyrch, gwasanaethau nad ydynt yn cael eu haddasu i fodloni eu hanghenion, ac agweddau rhai pobl atynt. Rydym ni wedi ymrwymo i barhau i gael gwared ar y rhwystrau hyn er mwyn creu cymdeithas gynhwysol a hygyrch i bawb.

## ADRAN 8. CASGLIAD

**Sut y mae pobl y mae'r cynnig yn fwyaf tebygol o effeithio arnynt wedi'u cynnwys yn y gwaith o'i ddatblygu?**

Roedd pandemig COVID-19 wedi effeithio ar fywydau pobl ar draws y byd, gan ddwysáu anghydraddoldebau ac anfanteision economaidd-gymdeithasol. Cafodd Covid effaith anghymesur ar rai cymunedau yng Nghymru.

Ym mis Gorffennaf 2021, roedd yr adroddiad 'Drws ar glo: Datgloi bywydau a hawliau pobl anabl yng Nghymru ar ôl COVID-19'[4] wedi tynnu sylw at yr anghydraddoldebau sy'n wynebu pobl anabl mewn cymdeithas. Un o'r ymatebion i'r adroddiad oedd sefydlu'r Tasglu Hawliau Pobl Anabl, partneriaeth rhwng Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid, wedi'i gyd-gadeirio gan Jane Hutt AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip, a'r Athro Debbie Foster o Brifysgol Caerdydd ac awdur yr adroddiad 'Drws ar Glo'.

Ffurfiodd y Tasglu ddeg gweithgor thematig i argymell camau gweithredu a fyddai'n gwella bywydau pobl anabl, sef:

- gwreiddio a deall y Model Cymdeithasol o Anabledd (ar draws Cymru)
- mynediad at wasanaethau (gan gynnwys cyfathrebu a thechnoleg)

[4] Adroddiad 'Drws ar Glo: Datgloi Bywydau a Hawliau Pobl Anabl yng Nghymru ar ôl COVID-19'

- byw’n annibynnol: gofal cymdeithasol
- byw’n annibynnol: iechyd
- teithio
- cyflogaeth ac incwm
- tai fforddiadwy a hygyrch
- plant a phobl ifanc
- mynediad at gyfiawnder
- llesiant (ar ffurf gweithdy)

Roedd y Tasglu’n gweithredu ar sail yr egwyddor o gyd-gynhyrchu. Gweithiodd dros 200 o swyddogion polisi Llywodraeth Cymru a 350 o randdeiliaid allanol gyda’i gilydd i ddatblygu argymhellion gyda’r nod o wella canlyniadau a sicrhau bod hawliau pobl anabl yng Nghymru yn cael eu gwireddu’n llawn. Roedd pobl anabl yn bartneriaid gweithredol ym mhroses y Tasglu, gan rannu gwybodaeth a phrofiadau bywyd sydd wedi llywio camau gweithredu i roi sylw i hawliau pobl anabl ac i chwalu’r rhwystrau presennol. Mae’r egwyddor “*pwysigrwydd cynnwys pobl anabl mewn unrhyw benderfyniadau*” yn hanfodol er mwyn sicrhau bod pobl anabl yn cymryd rhan weithredol mewn materion sy’n effeithio ar eu bywydau.

Mae argymhellion y Tasglu wedi cael eu defnyddio i lywio camau gweithredu a chanlyniadau’r cynllun pwysig hwn. Bydd yr argymhellion hyn yn parhau i fod yn adnodd pwysig y gall Llywodraeth Cymru ddychwelyd ato yn y dyfodol i nodi ei chamau gweithredu tymor canolig i hirdymor er mwyn cyflawni’r uchelgais a’r canlyniadau ar gyfer pobl anabl yn y cynllun 10 mlynedd hwn.

Roeddem yn cydnabod pwysigrwydd ymgysylltu â phlant ac oedolion anabl i ddysgu o’u profiadau, ac i ddatblygu datrysiadau i fynd i’r afael â’r rhwystrau y maen nhw’n eu hwynebu o ran defnyddio’r iaith Gymraeg, ei diwylliant a’i mannau.

Bu tîm y Tasglu Hawliau Pobl Anabl yn gweithio gydag ysgolion; Ysgol Tŷ Coch - ysgol arbennig i blant 3-19 oed ym Mhontypridd, Ysgol y Deri - ysgol arbennig i blant 3-19 oed ym Mhenarth, Ysgol Greenfields - ysgol arbennig i blant 3-19 oed ym Merthyr Tudful. Yn ogystal, cynhaliodd y Tasglu ddigwyddiad yn gweithio gyda Fforwm Cymru Ifanc Plant yng Nghymru, i gasglu safbwyntiau plant a phobl ifanc ar anabledd. Ar ben hynny, cynhaliodd y gweithgor Plant a Phobl Ifanc drafodaeth gyda Rhieni / Gofalwyr i glywed profiadau bywyd gan rieni a gofalwyr plant na fyddai’n gallu cymryd rhan, i eirioli ar eu rhan ac i glywed am eu profiadau bywyd fel gofalwyr.

Cynhaliwyd gweithdy yn canolbwyntio ar lesiant pobl anabl. Roedd hyn yn cynnwys pynciau fel mynediad at ddiwylliant a chwaraeon. Daeth dros 100 o aelodau i’r gweithdy llesiant.

Mae siaradwyr Cymraeg anabl yn gallu wynebu rhwystrau ychwanegol wrth geisio cyrchu gwasanaethau, addysg a chyflogaeth. Mae strategaeth ‘Cymraeg 2050’ yn nodi ehangu ffocws Is-grŵp Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant Cyngor Partneriaeth y Gymraeg, mewn perthynas â’r Gymraeg a phobl anabl. Fel rhan o’r

gwaith ymgynghori, byddwn yn siarad â sefydliadau Cymraeg a phobl ifanc Cymraeg eu hiaith sydd ag anableddau dysgu i gasglu adborth ar ein Cynllun Hawliau Pobl Anabl.

**Beth yw'r effeithiau mwyaf arwyddocaol – cadarnhaol a negyddol?**

Bydd y fframwaith a'r canlyniadau o fewn y Cynllun Hawliau Pobl Anabl yn cefnogi mynd i'r afael â gwahaniaethu ar sail anabledd, cynyddu cyfle cyfartal a meithrin perthnasoedd da.

Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Anabl (UNCRDP)

Cadarnhaodd y DU yr UNCRDP yn 2009, er mwyn cynnal a hyrwyddo hawliau pobl anabl. Drwy gydol y Cynllun Hawliau Pobl Anabl, rydym ni'n cyfeirio at y confensiwn fel y 'Confensiwn ar Hawliau Pobl Anabl' neu UNCRDP, yn hytrach na'r enw a roddwyd iddo – sef y Confensiwn ar Hawliau Pobl ag Anableddau – er mwyn adlewyrchu ein hymrwymiad i'r Model Cymdeithasol o Anabledd.

Ym mhob un o'r pedwar maes allweddol, mae'r cynllun hirdymor hwn yn amlinellu sut mae ei gamau gweithredu a'i ganlyniadau'n cefnogi'r egwyddorion sydd wedi'u hamlinellu yn erthyglau perthnasol Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Anabl. Drwy wneud yn siŵr bod ein camau gweithredu a'n canlyniadau yn cyd-fynd â'r egwyddorion hyn, ein nod yw sicrhau bod ein cynllun yn hybu mynediad at hawliau a chynhwysiant fel y bwriedir gan y confensiwn ar gyfer pob person anabl yng Nghymru.

Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn

Mae Erthygl 23 yn nodi y dylai plant anabl gael gofal a chymorth er mwyn iddynt allu byw bywydau llawn ac annibynnol (caiff yr erthygl hon ei hatgynhyrchu gan erthygl 7 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau).

Ni ddisgwylir unrhyw effeithiau negyddol o ganlyniad i'r fframwaith a'r cynllun gweithredu. Mae Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant wedi cael ei gynnal fel rhan o'r Asesiad Effaith Integredig.

Y Gymraeg

Nid oes unrhyw effaith negyddol amlwg ar y Gymraeg wedi'i nodi. Bydd y ddogfen ymgynghori ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg. Yn ogystal, mae Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg wedi cael ei chwblhau fel rhan o'r Asesiad Effaith Integredig.

Hyrwyddo Cyfleoedd Economaidd i Bawb (trechu tlodi)

Mae'r cynllun gweithredu'n cynnwys camau gweithredu sy'n cefnogi blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer mynd i'r afael â thlodi yn uniongyrchol. Mae tystiolaeth yn dangos bod pobl â nodweddion gwarchodedig penodol, fel pobl anabl, yn fwy tebygol o fod yn byw mewn tlodi – mae 50% o bobl ddi-waith yn bobl anabl sy'n chwilio am waith. Sefydlwyd gweithgor Cyflogaeth ac Incwm y Tasglu Hawliau Pobl Anabl i drafod materion sy'n ymwneud â mynd i'r afael â thlodi a chlywed am

brofiadau pobl anabl yn y maes hwn. Mae camau gweithredu o fewn y Cynllun Hawliau Pobl Anabl wedi cael eu cyd-gynhyrchu yn dilyn y cyfarfodydd hyn.

<u>Adroddiad Drws ar Glo</u>

Sefydlwyd y Tasglu Hawliau Pobl Anabl, sy'n cael ei arwain gan y Gweinidog, ar ôl cyhoeddi adroddiad *Drws ar Glo: Datgloi Bywydau a Hawliau Pobl Anabl yng Nghymru ar ôl COVID-19.* Daeth y Tasglu â phobl â phrofiad bywyd, Swyddogion Llywodraeth Cymru a sefydliadau cynrychioladol at ei gilydd i nodi'r problemau a'r rhwystrau sy'n effeithio ar fywydau llawer o bobl anabl yng Nghymru.

<u>Y Model Cymdeithasol o Anabledd</u>

Mae'r Model Cymdeithasol o Anabledd yn canolbwyntio ar rwystrau cymdeithasol yn hytrach nag amhariadau, gan eirioli dros yr un hawliau i bobl anabl â'u cyfoedion. Mae'r Model yn rhoi'r cyfrifoldeb ar gymdeithas, gan alw am gael gwared ar rwystrau - strwythurol, diwylliannol a gwahaniaethu - sy'n cyfyngu ar gyfranogiad pobl anabl. Mae rhwystrau strwythurol yn cynnwys adeiladau anhygyrch. Mae rhwystrau diwylliannol yn deillio o agweddau, credoau ac arferion mewn cymdeithas sy'n arwain at allgau, gwahaniaethu a rhagfarn sy'n ffafrio pobl nad ydynt yn anabl. Drwy herio'r safbwyntiau hyn, gall cymdeithas ddangos nad rhywbeth negyddol yw bod yn anabl, a bod cymdeithas a chymunedau'n gryfach ac yn fwy cydlynol gydag amrywiaeth o bobl, gan gynnwys pobl anabl. Mae'r model hwn yn grymuso pobl anabl i arfer eu hawliau ac yn dathlu eu hamrywiaeth a'u cyfraniadau.

Cafodd y Model Cymdeithasol o Anabledd ei wreiddio yn holl waith y Tasglu, ac mae wedi'i wreiddio yn y Cynllun Hawliau Pobl Anabl.

<u>Fforwm Cydraddoldeb i Bobl Anabl</u>

Mae'r Fforwm Cydraddoldeb i Bobl Anabl yn darparu cyfle i randdeiliaid gynghori Llywodraeth Cymru ar y prif faterion sy'n effeithio ar bobl anabl.

Pwrpas y Fforwm Cydraddoldeb i Bobl Anabl yw rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru am faterion sy'n dod i'r amlwg a rhoi cipolwg ar brofiadau bywyd pobl anabl.

**Yn sgil yr effeithiau a nodwyd, sut bydd y cynnig:**

- **yn cyfrannu cymaint â phosibl at ein hamcanion llesiant a'r saith nod llesiant; a/neu,**
- **yn osgoi, yn lleihau neu'n lliniaru unrhyw effeithiau negyddol?**

<u>Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015</u>

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn canolbwyntio ar wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r Ddeddf yn rhoi diben cyffredin sy'n rhwymo'n gyfreithiol – y saith nod llesiant – ar gyfer llywodraeth genedlaethol, llywodraeth leol, byrddau iechyd lleol a chyrff cyhoeddus penodol eraill. Mae'n rhoi manylion sut mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus

penodol weithio a chydweithio i wella llesiant Cymru. Bydd y cynllun hwn yn cefnogi **nodau llesiant** Cymru lewyrchus, Cymru gydnerth, Cymru iachach, Cymru sy'n fwy cyfartal a Chymru o gymunedau cydlynus.

Ni nodwyd unrhyw effeithiau negyddol yn dilyn yr asesiad effaith hwn.

**Sut bydd effaith y cynnig yn cael ei monitro a'i gwerthuso wrth i'r cynnig ddatblygu, ac ar ôl iddo ddod i ben?**

Bydd ymgynghoriad 12 wythnos ar gyfer Cynllun Hawliau Pobl Anabl Cymru. Byddwn yn annog pob aelod o'r cyhoedd, yn enwedig pobl anabl a rhanddeiliaid, i gymryd rhan gan fod adborth gan bobl anabl yn hanfodol i wella'r gymuned pobl anabl. Bydd fersiwn derfynol y cynllun yn cael ei chyhoeddi ar ôl yr ymgynghoriad.

Bydd yr ymgynghoriad ar y Cynllun Hawliau Pobl Anabl ar gael mewn fersiynau Iaith Arwyddion Prydain, Braille, Clywedol, Hawdd ei Ddarllen, Cyfeillgar i Blant, Cymraeg a Saesneg.

Byddwn yn sefydlu Bwrdd Cynghori Allanol i ddarparu cyngor a chymorth ynghylch gweithredu, cyflawni ac effaith y Cynllun Hawliau Pobl Anabl. Mae Uned Tystiolaeth Gwahaniaethau ar Sail Anabledd Llywodraeth Cymru hefyd wedi nodi sut byddwn yn monitro canlyniadau'r cynllun hwn, er mwyn sicrhau rhagor o dryloywder ynghylch ein cynnydd tuag at gyflawni ein huchelgais, a rhoi gwybod i ni'n gynnar os bydd bylchau'n ymddangos, er mwyn i ni allu gweithredu. Mae'r Cynllun hwn yn weledigaeth 10 mlynedd, sy'n ymateb i'r hyn rydym ni'n ei ddysgu dros amser. Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda phobl anabl a'u sefydliadau, yn ogystal â phartneriaid eraill, i fonitro ac adolygu ein camau gweithredu a'n heffaith.